



Tŷ Hafan

CHILDREN'S HOSPICE
HOSBIS I BLANT

Canllaw i Rieni a Theuluoedd ar y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir gan Tŷ Hafan

'Darparu gofal, bod yno'

Diweddarwyd: Mai 2024

Mynegai

Adran	Manyllyn	Tudalen
1	<u>Croeso</u>	1
2	<u>Cyflwyniad: Tŷ Hafan a'ch Teulu</u>	2
3	<u>Darparu Gofal, Bod Yno: Ein Gwasanaethau</u>	3
3.1	<u>Arosiadau Preswyl Mewn Hosbis</u>	4
3.2	<u>Cymorth i Deuluoedd, a Brodyr a Chwiorydd</u>	12
3.3	<u>Gweithio gyda'n Gilydd</u>	18

Adran 1 Croeso

Croeso i Tŷ Hafan

Mae popeth a wnawn yn Tŷ Hafan yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd, ar ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y teulu a bod yno i blant a theuluoedd pan fyddant ei angen fwyaf. Ein nod yw dod â'ch plentyn a'ch teulu â'r cysur, y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnoch er mwyn ymdopi â'r heriau o ddydd i ddydd o fyw gyda chyflwr sy'n byrhau bywyd.

Elusen plant yw Tŷ Hafan, ac rydym yn ddiolchgar i'n cefnogwyr a phobl Cymru am yr haelioni sy'n ein galluogi i ddarparu gofal lliniarol arbenigol i blant, am ddim i'ch plentyn a'ch teulu, ble bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnoch.

Efallai eich bod eisoes yn gwybod rhywbeth am Tŷ Hafan ond rydym yn sylweddoli y gallai fod yn anodd deall popeth ar adeg pan fyddwch yn poeni am lesiant eich plentyn. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth y credwn ei bod yn bwysig i chi ei gwybod am Tŷ Hafan a'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i deuluoedd fel eich un chi sy'n gofalu am blentyn â chyflwr sy'n byrhau bywyd.

Darperir ein gofal a chymorth gan dîm medrus a phrofiadol o staff sydd rhyngddynt yn meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad yn gofalu am blant a theuluoedd fel eich un chi.

Byddwn yn gweithio gyda chi a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â chefnogi'ch plentyn a'ch teulu i roi'r gofal a'r cymorth gorau posibl i chi. Rydym yn deall y gallech fod yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'n cynnwys ni yn eich bywydau oherwydd nad ydych yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Gobeithio fod y llyfryn hwn yn ateb rhai o'ch cwestiynau ac yn cael gwared ar rywffaint o'r pryder hwnnw. Mae ein staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt, felly gofynnwch am ragor o wybodaeth neu gyngor.

Mae gennym ddogfen arall o'r enw Datganiad o Ddiben sy'n nodi'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn fwy ffurfiol. Mae'r Datganiad o Ddiben ar gael ar ein gwefan yn www.tyhafan.org. Os hoffech gopi papur, gofynnwch i aelod o staff.

Edrychwn ymlaen at ddarparu gofal lliniarol arbenigol i chi sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion eich teulu.

Sian Middleton

Cyfarwyddwr Nyrso a
Gwasanaethau Clinigol

Tracy Jones

Cyfarwyddwr Llesiant Teuluoedd
a Gwasanaethau Allgymorth

Adran 2 Cyflwyniad: Tŷ Hafan a'ch Teulu

Mae Tŷ Hafan yma i chi oherwydd bod eich plentyn wedi cael diagnosis o gyflwr sy'n byrhau bywyd. Efallai eich bod wedi bod yn byw gyda'r wybodaeth hon ers cryn amser neu newydd gael y newyddion dinistriol hyn.

Nid ydych ar eich pen eich hun. Er efallai mai eich plentyn yw'r rheswm pam eich bod yn cael gwasanaethau gofal Tŷ Hafan, rydym yno i chi hefyd, o'r adeg y cewch ddiagnosis ac i'r hyn a all deimlo'n anhysbys i chi.

Mae Tŷ Hafan yn sefydliad a ariennir yn elusennol, ac mae'r gofal a'r cymorth a gynigiwn i chi yn rhad ac am ddim. Caiff ei deilwra bob amser i ddiwallu anghenion eich plentyn, a'ch anghenion chi a'ch teulu agos. Nid oes rhaid i'ch plentyn aros yn yr hosbis i elwa o'n gwasanaethau; rydym yn darparu gwasanaethau allgymorth gartref ac mewn lleoliadau cymunedol sy'n cynnwys cymorth i deuluoedd a brodyr a chwiorydd, chwarae, a therapïau arbenigol fel cerddoriaeth a therapi cyflenwol. Gall teuluoedd hefyd ddefnyddio'r ystod o adnoddau arbenigol sydd ar gael yn yr hosbis gan gynnwys y pwll hydrotherapi a'r ystafelloedd synhwyraidd.

Rydym bob amser yn dechrau trwy wneud asesiad o anghenion unigol eich plentyn ac aelodau o'ch teulu agos sy'n ymwneud â gofal eich plentyn. Gall hyn fod yn rhieni, mam-guod a thad-cuod, brodyr a chwiorydd, modrybedd ac ewythrod a theuluoedd maeth.

Pan fyddwn yn gwybod beth sydd ei angen arnoch, byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun gofal ar gyfer eich plentyn a'ch teulu. Byddwn hefyd yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gofalu am eich plentyn gartref, yn yr ysgol neu yn yr ysbyty. Mae hyn yn sicrhau, p'un a ydym yn cynnig gwasanaethau i chi gartref neu yn yr hosbis, ein bod yn gweithio gyda chi yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol o'ch cwrpas chi a'ch plentyn.

Bydd eich cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ein timau medrus, gan gynnwys nyrsys plant, therapyddion, gweithwyr chwarae a gweithwyr cymdeithasol. Maent wedi cael eu hyfforddi i wneud hyn gan Tŷ Hafan. Byddant yn siarad â chi yn rheolaidd, ac ni fyddwn yn cynnal unrhyw weithdrefn heb eich caniatâd.

Mae ein timau'n cael hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal o'r safon uchaf ac mae pob un ohonynt wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae ein gwasanaethau'n ategu yn hytrach na disodli'r gofal a chymorth rydych eisoes yn eu derbyn yn y gymuned a'r ysbyty. Yr ymgynghorydd sy'n gweld eich plentyn yn rheolaidd fydd yr un sy'n gwneud y penderfyniadau am ofal eich plentyn o hyd. Mae gennym hefyd ymgynghorydd gofal lliniarol pediatrig a meddygon teulu sy'n ymweld â'r hosbis yn rheolaidd. Mae'r ymgynghorydd hwn hefyd yn cefnogi pobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Adran 3 Darparu Gofal, Bod Yno: Ein Gwasanaethau

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau gyda'r nod o ddiwallu anghenion eich plentyn a'ch teulu. Gall hyn gynnwys seibiant mewn hosbis mewn argyfwng, gofal brys, rheoli symptomau a gofal diwedd oes. Yn ogystal â darparu gwasanaethau yn yr hosbis, mae rhai o'n gwasanaethau hefyd ar gael gartref, mewn lleoliadau cymunedol yn nes at adref, ac mewn ysbytai neu ysgolion. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Cymorth i deuluoedd, a brodyr a chwiorydd
- chwarae a gweithgareddau, gan gynnwys hybiau 'aros a chwarae'
- ffisiotherapi
- therapi galwedigaethol
- therapi chwarae
- therapi cerdd
- therapiau cyflenwol

Pan fydd ei angen, rydym hefyd yn cynnig:

- cymorth i bobl ifanc a theuluoedd sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion
- cymorth i deuluoedd ar ddiwedd oes
- gofal a chymorth mewn profedigaeth

Byddwn yn dyrannu'r aelod mwyaf priodol o'r gwasanaethau gofal, fel arfer rhywun o'r tîm llesiant teuluol i weithredu fel eich prif bwynt cyswllt; bydd y person hwn yn cadw mewn cysylltiad â chi ac yn cefnogi eich plentyn a'ch teulu.

Arosiadau seibiannol mewn argyfwng

Weithiau gall pethau ddigwydd sy'n effeithio ar eich gallu i ofalu am eich plentyn, fel salwch, damwain, chwalfa deuluol neu argyfwng tai. Mae'n bosibl y gallwn helpu gyda'r argyfyngau hyn gan ddarparu arhosiad i'ch plentyn ar fyr rybudd. Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os bydd argyfwng fel hyn yn digwydd.

Rydym hefyd yn deall y gall gofalu am blentyn ag anghenion iechyd cymhleth a byw gyda'r ddealltwriaeth y gall bywyd eich plentyn fod yn fyr fod yn flinedig yn gorfforol ac yn emosiynol. Weithiau mae'n bosibl y bydd angen ychydig o gymorth ychwanegol ar deuluoedd i'w helpu i ymdopi â'r cyfrifoldebau gofalu heriol hyn, felly efallai y gallwn gynnig seibiant mewn argyfwng i chi neu fynediad ar fyr rybudd at ein gwely drwy ganslad.

Sut mae'n gweithio?

Cynigir gofal seibiant mewn argyfwng yn seiliedig ar anghenion eich plentyn a'ch teulu. Mae arosiadau fel arfer am ychydig ddyddiau ar y tro, ond rydym yn ceisio teilwra amseriad a hyd arhosiad eich plentyn i ddiwallu anghenion y teulu cyfan. Bydd ein tîm derbyn yn rheoli unrhyw arosiadau a drefnir gyda chi, a bydd yn gweithio gyda'r tîm ehangach er mwyn sicrhau ein bod yn barod i'ch croesawu.

Os cynigir arhosiad byr rybudd i chi drwy ganslad, fe'ch cynghorir y gallai fod angen aildrefnu neu ganslo'r arhosiad hwn ar fyr rybudd, neu hyd yn oed yn ystod yr arhosiad os oes angen y gwely ar gyfer mynediad brys. Rydym yn deall nad yw'r math hwn o arhosiad yn addas i bawb, felly bydd y tîm derbyn yn gofyn i chi a ydych am i ni gysylltu â chi ar gyfer y math hwn o arhosiad.

Rheoli Symptomau, adre o'r ysbyty, a gofal diwedd oes

Gallwn gefnogi teuluoedd gydag arhosiad mewn hosbis os yw un aelod o dîm meddygol y plentyn yn teimlo y byddai arhosiad rheoli symptomau yn ddefnyddiol. Gallai hyn fod i dreialu meddyginiaethau neu ymyriadau newydd, neu i fonitro symptomau newydd neu newidiol yn agos. Trafodir yr arosiadau hyn yn llawn gyda chi bob amser, a chânt eu cefnogi gan un o'n Nyrsys Clinigol Arbenigol profiadol.

Weithiau, mae angen triniaethau meddygol neu lawfeddygol yn yr ysbyty ar y plant sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Os bydd eich plentyn yn cymryd amser hir i wella'n llwyr ar ôl y triniaethau hyn, efallai y bydd ein cydweithwyr sy'n gweithio yn yr ysbytai yn cysylltu â ni i ddarparu gofal 'cam wrth gam' cyn dychwelyd adref. Os bydd hyn yn

digwydd, byddwn yn cynnal asesiad o anghenion eich plentyn yn dilyn llawdriniaeth neu gwrs o driniaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rheoli ei anghenion. Byddwn yn cytuno â chi ar hyd eich arhosiad yn yr hosbis ac yn eich helpu i gyrraedd adref yn ddiogel.

Os yw eich plentyn, yn anffodus, yn agosáu at ddiwedd ei oes neu'n dioddef episod sy'n bygwth bywyd, bydd ein tîm yn gweithio gyda thîm yr ysbyty neu'ch tîm nyrsio cymunedol i drefnu trosglwyddiad diogel i'r hosbis os mai dyna yw eich dymuniad. Bydd y math hwn o arhosiad bob amser yn flaenoriaeth a byddwn bob amser yn ymdrechu i roi llety i deuluoedd yn y sefyllfaoedd hyn.

Y broses o dderbyn

Mae ein nyrsys a'n harbenigwyr nyrsio clinigol yn gweithio gyda'r tîm derbyn a byddant yn cysylltu â chi cyn arhosiad eich plentyn. Byddant yn creu neu'n adolygu cynlluniau gofal, ac yn gwirio meddyginiaethau cyfredol.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw am unrhyw fanylion am yr hyn sydd ei angen ar gyfer arhosiad eich plentyn yn yr hosbis. Byddwn bob amser yn gofyn i chi lenwi holiadur cyn derbyn - mae'r wybodaeth rydych yn ei rhannu yn bwysig i'n helpu i gynllunio ar gyfer arhosiad eich plentyn gyda ni.

Fel arfer, byddwn yn gofyn i chi gyrraedd a gadael ar gyfer eich arhosiad preswyl arfaethedig ar amser penodol. Mae hyn fel bod eich ystafelloedd yn barod pan fyddwch yn cyrraedd, ac er mwyn sicrhau bod nyrs ar gael i gwblhau eich derbyniad. Os oes gennych unrhyw geisiadau penodol ynghylch pryd y byddwch yn cyrraedd neu'n gadael, rhowch wybod i'r tîm derbyniadau a byddwn yn ceisio darparu ar gyfer hyn.

Gofynnwn i chi aros yn yr hosbis y tro cyntaf y daw eich plentyn am arhosiad preswyl. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut i ofalu am eich plentyn yn y ffordd rydych chi'n ei wneud. Mae'r dull hwn yn helpu'ch plentyn i ymgartrefu, ac yn helpu i leihau eich pryder ynghylch trosglwyddo gofal eich plentyn i eraill.

Pan ddaw eich plentyn i'r hosbis am unrhyw fath o arhosiad, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cymryd drosodd ei ofal mewn ffordd ddiogel. Am y rheswm hwn, dim ond gyda pherson sydd â chyfrifoldeb rhiant y gallwn gynnal y broses dderbyn; oni bai bod trefniadau eraill wedi'u gwneud cyn i'ch plentyn ddod i aros gyda ni.

Ar ddiwrnod y derbyniad, bydd nyrs yn cael ei neilltuo i chi yn y tîm gwasanaethau gofal. Byddant yn cwrdd â chi ac yn adolygu cynlluniau gofal a dogfennaeth eich plentyn er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am ofal eich plentyn.

Mae'r broses hefyd yn cynnwys gwirio unrhyw feddyginiaeth a ragnodir i'ch plentyn, a'i thrawsgrifio ar siart rhoi meddyginiaeth Tŷ Hafan fel y gellir rhoi meddyginiaethau'n ddiogel. Mae'n arbennig o bwysig bod yr holl wybodaeth yn cael ei dogfennu'n gywir ac yn fanwl, yn enwedig os nad ydych yn aros gyda'ch plentyn.

Mae angen y wybodaeth y gofynnwn amdani yn ystod y broses dderbyn ar gyfer datblygu cynllun gofal eich plentyn, bydd hyn yn cynnwys dogfennu arsylwadau corfforol sylfaenol ar gyfer eich plentyn. Weithiau, byddwn yn addasu'r cynlluniau gofal y mae gweithwyr proffesiynol yn eu dilyn yn y gymuned neu yn yr ysgol i gynnwys unrhyw anghenion penodol sydd gan eich plentyn ar gyfer yr arhosiad penodol hwnnw.

Gall arhosiad preswyl olygu eich bod yn trosglwyddo gofal eich plentyn yn gyfan gwbl i'n staff medrus. Rydym yn deall y gallai hyn deimlo'n frawychus, felly os yw'n well gennych, gallwn rannu gofal eich plentyn, gyda chi yn dangos i ni beth yn union sydd ei angen ar eich plentyn, gan gynnwys pryd a sut. Rydym yn awyddus i'ch plentyn fod mor gyfforddus â phosibl, ac i chi deimlo'n hyderus, felly byddwn yn dysgu gennych chi y ffordd orau o ofalu am eich plentyn. I'ch plentyn, mae aros yn yr hosbis yn rhoi seibiant iddo o'r cartref hefyd. Mae'n rhoi'r cyfle iddo gwrdd â phobl newydd, i gael profiadau newydd, ac i ddysgu sut i ymddiried mewn eraill i ofalu amdano.

Mae croeso i chi aros yn yr hosbis, ond efallai y byddwch yn teimlo yr hoffech aros gartref. Cyn belled â'ch bod yn rhoi gwybod i ni, gallwch aros am ran o'r arhosiad preswyl neu'r cyfan ohono. Mae angen i ni wybod er mwyn inni allu gwneud trefniadau gyda'n timau arlwygo a chadw tŷ, er mwyn sicrhau eich bod yn gyfforddus drwy gydol eich arhosiad.

Os yw eich teulu'n aros gyda ni, yna mae'r broses dderbyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth i'ch cadw'n ddiogel fel y weithdrefn gadael yr adeilad mewn argyfwng, arwyddo wrth gyrraedd a gadael yr hosbis, arferion cadw tŷ, a gwybodaeth iechyd a diogelwch arall.

Ble y byddwn yn aros?

Darperir arosiadau preswyl yn ein hosbis bwrpasol yn Sili ym Mro Morgannwg. Gobeithio y bydd yn groesawgar i chi ac yn rhoi cydbwysedd o symbyliad ac ymlacio i'ch plentyn.

Bydd gan eich plentyn ei ystafell wely ei hun. Mae pob ystafell yn cynnwys y gwely neu'r cot mwyaf priodol ar gyfer eich plentyn, teclynnau codi, cyfleusterau golchi, cwpwrdd dillad, cwpwrdd meddyginiaeth, aerdymheru a gwresogi unigol, teledu, a system gerddoriaeth. Mae holl borthiant, moddion ac offer eich plentyn yn cael eu

storio yn ei ystafell am hyd yr arhosiad, ar wahân i feddyginiaeth sydd angen ei rheweiddio, a fydd yn cael ei storio yn yr ystafell driniaeth.

Mae rhai meddyginiaethau yn cael eu hystyried yn gyffuriau rheoledig y mae angen eu storio'n ddiogel mewn cabinet dynodedig. Bydd angen i siart gweinyddu meddyginiaeth Tŷ Hafan gael ei wirio a'i lofnodi gan riant neu ofalwr sydd â chyfrifoldeb rhiant. Lle bo rhieni sydd wedi dewis rhoi meddyginiaethau i'w plentyn yn ystod arhosiad, bydd asesiad risg a ffurflen ganiatâd yn cael eu cwblhau i sicrhau rheolaeth ddiogel o feddyginiaethau. O ran meddyginiaethau rheoledig, bydd angen i ni gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol o hyd.

Mae cyfleusterau ymolchi a chawod arbenigol wedi'u lleoli mewn ystafelloedd ymolchi gyferbyn ag ystafelloedd gwely'r plant.

Byddwn yn darparu dillad gwely a thywelion ond hoffem i chi ddarparu'r holl ddillad a nwyddau ymolchi y mae eich plentyn yn eu defnyddio. Os yw eich plentyn yn cysgu gyda thegan neu gysurwr penodol, dewch â hwnnw hefyd.

Byddwn yn golchi dillad eich plentyn, oni bai eich bod yn dweud wrthym fel arall. Efallai yr hoffech labelu dillad eich plentyn, ond nid yw'n hanfodol.

Mae ein llety i deuluoedd ar y llawr cyntaf, sydd â mynediad drwy lifft os oes angen. Mae gennym saith ystafell wely en-suite eang – mae pob ystafell yn wahanol, ac mae gan rai ardal benodol ar gyfer plant eraill yn y teulu a allai fod yn aros gyda chi. Mae un ystafell yn gysylltiol at ddefnydd teuluoedd mwy ac mae gan un ystafell gyfleuster ystafell ymolchi hygyrch. Gall pob ystafell gynnwys cotiau neu welyau gosod. Gall brodyr a chwiorydd gael eu hystafelloedd eu hunain os ydynt yn ddigon hen.

Mae'r lolfa deuluol hefyd ar y llawr cyntaf – mae'n ofod a rennir, ond mae ar gael i chi ymlacio, gwyllo'r teledu, chwarae gyda'ch plant eraill neu hyd yn oed goginio pryd o fwyd syml. Mae gan y lolfa beiriant golchi dillad i chi olchi dillad eich teulu os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Er mwyn cynnal ein glendid o safon uchel, rydym yn glanhau pob ystafell bob dydd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi'r amser y disgwylir i ni lanhau eich ystafell. Os nad yw'r amser hwn yn gyfleus i chi neu'ch plentyn, bydd ein gweithwyr cadw tŷ bob amser yn newid yr amser fel ei fod yn addas i chi.

A ganiateir ysmegu?

Mae polisi dim ysmegu ym mhob rhan o adeilad a thir yr hosbis, gan gynnwys y defnydd o e-sigarêts. Fodd bynnag, mae trefniadau arbennig wedi'u gwneud ar gyfer

yr aelodau hynny o'r teulu dros 16 oed sy'n dymuno ysmegu. Mae ardal allanol wedi'i neilltuo i'r diben hwn. Bydd staff yn dangos yr ardal hon i chi pan fyddwch yn dod i aros yn yr hosbis a'r canllawiau ynghylch gweithdrefnau diogelwch ar gyfer sicrhau nad yw drysau mynediad yr hosbis yn cael eu gadael ar agor neu'n gilagored wrth ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Diogelwch ac ymwelwyr

Rydym yn deall efallai yr hoffech gael ymwelwyr yn ystod arhosiad eich plentyn yn yr hosbis. Gofynnir i bob ymwelydd arwyddo pan fyddant yn cyrraedd am resymau iechyd a diogelwch er enghraifft, fel cofrestr os bydd tân. Argreffir gwybodaeth am weithdrefnau tân a gadael yr adeilad mewn argyfwng ym mhob un o ystafelloedd gwely'r rhieni a gosodir cynllun o'r adeilad ar ddrysau pob un o'r ystafelloedd hyn.

Mae diogelwch plant, teuluoedd a staff yn hynod o bwysig, ac rydym yn cymryd diogelwch y safle o ddifrif. Mae synwryddion larwm wedi'u gosod ar bob drws a cheir mynediad i'r adeilad drwy ffob/cod mynediad. Sicrhewch nad yw drysau yn cael eu gadael ar agor ar unrhyw adeg.

Ceir mynediad i'r tiroedd drwy fariau a gaiff eu hactifadu drwy ffob. Os byddwch yn gadael safle'r hosbis yn ystod eich arhosiad, bydd angen i chi ddefnyddio'r seiniwr mynediad wrth y bariau a mynedfa'r hosbis i gael mynediad unwaith eto.

Oherwydd bod llawer o'r plant sy'n hysbys i Tŷ Hafan yn agored i niwed, mae rheoli heintiau'n effeithiol yn bwysig i ni. Os ydych wedi trefnu gyda staff i ymwelydd ddod i'r hosbis, rhowch wybod iddynt os ydynt yn teimlo'n sâl, y dylent osgoi ymweld â'r hosbis nes ei fod yn well. Bydd hyn yn helpu i gadw plant a phobl ifanc Tŷ Hafan yn ddiogel.

Beth am brydau bwyd?

Mae prydau bwyd a lluniaeth di-alcohol ar gael i chi ac aelodau o'ch teulu agos am ddim yn ystod eich arhosiad. Nid yw'n arferol i ni ddarparu prydau bwyd i deulu neu ffrindiau ehangach, ond gallwn ddarparu te, coffi a bisgedi. Os oes gennych achlysur arbennig yn ystod eich arhosiad, rhowch wybod i ni a byddwn yn ceisio eich helpu i ddathlu.

Gallwch ddefnyddio'r cyfleusterau gwneud te a choffi yn y gegin unrhyw bryd yn ystod y dydd neu'r nos, mae ffrwythau ffres, sgwosh a byrbrydau eraill hefyd ar gael drwy gydol y dydd.

Darperir yr holl brydau yng nghanol ein hosbis lle mae gennym le penodol ar gyfer rhannu pryd o fwyd. Mae teuluoedd a staff fel arfer yn eistedd i fwyta gyda'i gilydd.

Fodd bynnag, os hoffech fwyta ar wahân, rhowch wybod i ni. Mae croeso i chi fynd â phrydau i'r Lolfa Deuluol i fyny'r grisiau.

Nid oes amser penodol ar gyfer brecwast; gallwch gael te, coffi, sudd, grawnfwyd a thost pan fyddwch yn barod. Gweinir cinio poeth wedi'i goginio tua 12:30pm a gweinir te o tua 5:00pm. Os nad ydych chi neu'ch plentyn yn ffansio'r pryd ar y fwydlen, rhowch wybod i ni a byddwn yn paratoi rhywbeth i chi.

Gallwn ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion dietegol - os oes gennych ofynion penodol, rhowch wybod i ni. Gallwch hefyd gael eich prydau ar wahanol adegau - rhowch wybod i ni. Bydd ein cyflenwyr arlwyo yn darparu prydau kosher a chig a chynnyrch halal wedi'i baratoi os oes angen. Gallwch hefyd ddod â rhai cyflenwadau gyda chi os ydych yn dymuno gwneud hynny. Byddwn yn eu labelu ac yn eu storio i chi yn yr oergell fawr yn y gegin. Gallwn hefyd ddarparu diet figan neu lysieuol i chi, a darparu ar eich cyfer os oes gennych alergeddau neu anoddefiad penodol i rai bwydydd.

Rhowch wybod i ni am eich gofynion dietegol cyn i chi ddod i aros yn yr hosbis fel y gallwn sicrhau ein bod yn barod.

Sut y byddwch yn gofalu am fy mhientyn?

Rydym yn darparu'r holl ofal corfforol a phersonol sydd ei angen ar eich plentyn yn ystod ei arhosiad. Bydd ein nyrsys yn asesu, yn cynllunio, yn darparu ac yn adolygu gofal plentyn drwy'r cyfnod dyletswyddau cyfan, ac mae'r gofal yn cael ei adolygu gan y tîm nesaf yn ystod cyfnodau trosglwyddo ac ar ddiwedd cyfnod dyletswyddau sydd fel arfer yn digwydd am 7:00am a 7:00pm. Yn ystod ei arhosiad, efallai y bydd eich plentyn yn cael ei adolygu gan ein hymgyngorydd gofal lliniarol neu gan feddyg teulu. Os hoffech i'ch plentyn gael ei adolygu gan feddyg yn ystod ei arhosiad, rhowch wybod i ni pan fydd yn cael ei dderbyn neu unrhyw bryd yn ystod arhosiad eich plentyn.

Rhwng 9:00 am a 6:00 pm, mae gwasanaethau meddygol ar gyfer yr hosbis yn cael eu darparu gan Ganolfan Feddygol West Quay, Heol Hood, Y Barri, CF62 5QN. Darperir gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau gan Fwrdd Iechyd Lleol GIG Caerdydd a'r Fro.

Mae Ymgynghorydd Gofal Lliniarol Pediatrig Tŷ Hafan fel arfer yma am ddau ddiwrnod yn ystod yr wythnos. Yn ogystal, mae'r tîm gofal yn cynnal cyfarfodydd bob wythnos i roi unrhyw gyngor ychwanegol y gallai fod ei angen ar blant sy'n aros yn yr hosbis. Mae Ymgynghorydd Tŷ Hafan yn gweithio'n agos gyda'r ymgynghorwyr gofal lliniarol pediatrig trydyddol eraill sydd hefyd yn ymweld â'r hosbis. Mae'r tîm hwn yn darparu gwasanaeth ar alwad y tu allan i oriau swyddfa.

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich cynnwys ym mhob penderfyniad a wneir tra byddwch yn yr hosbis. Os nad ydych yn aros gyda'ch plentyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau yng nghyflwr neu driniaeth eich plentyn cyn gynted â phosibl, a byddwn yn darparu diweddariadau dros y ffôn mor aml ag yr hoffech.

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl yn ystod ei arhosiad, bydd meddyg yr hosbis yn gallu rheoli'r rhan fwyaf o anhwylderau. Os bydd eich plentyn yn datblygu problem ddifrifol, neu os bydd angen triniaeth arno i reoli ei gyflwr nad yw ar gael yn yr hosbis ac y gellir ei darparu mewn ysbyty yn unig, yna bydd ambiwlans yn cael ei alw i fynd â'ch plentyn i Ysbyty Athrofaol Cymru, a elwir yn gyffredin "Y Mynydd Bychan". Cyfeirir at yr uned asesu plant fel 'CAU'. Os felly, byddwn yn gweithio gyda chi a'r ysbyty i sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel.

Mae gofal corfforol ond yn rhan o'r hyn a ddarparwn yn ystod arhosiad plentyn neu berson ifanc. Mae ein cynlluniau gofal wedi'u teilwra gyda'ch plentyn mewn golwg ac yn caniatáu amser iddo chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau neu dripiâu os yw'n gallu, gan ddarparu cyfleoedd i'w helpu i ffynnu yn ystod ei arhosiad. Mae gan blant hŷn y cyfle i "gymdeithasu" yn y 'Den', ein hardal bwrpasol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth gynyddol, a lle i wneud ffrindiau a chwarae gemau cyfrifiadurol. Rydym yn diogelu ein cyfrifiaduron a'n setiau teledu i sicrhau mai dim ond deunydd sy'n briodol i'r oedran sy'n cael ei ddefnyddio.

Efallai y bydd angen therapïau penodol ar eich plentyn fel hydrotherapi, chwarae, synhwyraidd, cerddoriaeth neu therapïau cyflenwol i'w helpu i fynegi ei deimladau, i leddfu poen neu anghysur, neu dim ond er mwynhad. Os yw'n gallu, rydym am i'ch plentyn brofi cymaint â phosibl, i deimlo'n gyfforddus a chael hwyl.

Weithiau, efallai y bydd angen i'ch plentyn siarad â rhywun nad yw'n rhy agos ato. Gallwn gynnig clust i wrando ar ofnau a rhwystredigaethau, a'i helpu i drafod pethau.

Sut y byddwch yn gofalu am fy nheulu os ydym yn aros yn yr hosbis?

Yn ystod yr arhosiad, efallai y byddwch chi a'ch teulu eisïau gallu ymlacio. Efallai y byddwch am fanteisio ar eich amser rhydd a mynd allan bob dydd. Ond efallai y byddwch hefyd am siarad â rhywun, a gallwn gynnig glust i wrando arnoch chi. Efallai y bydd angen gwybodaeth neu ffynonellau cyngor ymarferol arnoch. Gall aelod o'n tîm cymorth i deuluoedd ddarparu'r math hwn o gymorth.

Rydym am i chi ymlacio cymaint â phosibl yn ystod eich arhosiad. Rydych yn rhydd i ymuno â ni yn ein hardaloedd a rennir, neu i dreulio amser tawel ar eich pen eich hun.

Efallai y bydd angen i frodyr a chwiorydd dreulio rhywfaint o amser gwerthfawr gyda chi neu efallai y byddant am gael sgwrs ag aelod o'n tîm sy'n gweithio'n benodol gyda brodyr a chwiorydd – rydym yn eu galw'n ymarferydd cymorth i frodyr a chwiorydd.

Gall yr hosbis ymddangos yn lle cyffrous iawn i blentyn. Mae hefyd yn adeilad mawr iawn a gall brodyr a chwiorydd iau fynd ar goll os na chânt eu goruchwyllo. Er eu diogelwch, byddwn bob amser yn gofyn i chi gymryd cyfrifoldeb am eu gofal a chadw llygad arnynt bob amser. Gall brodyr a chwiorydd ymuno mewn gweithgareddau a gynhelir yn yr hosbis a threulio amser yn chwarae gyda'u brawd neu chwaer. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi pan fydd y gweithgaredd wedi'i orffen fel eich bod yn glir pan fydd cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo yn ôl i chi.

Beth am fy ffydd?

Mae Tŷ Hafan yn croesawu plant a theuluoedd o bob ffydd yn ogystal â theuluoedd heb unrhyw ffydd o gwbl. Gallwch gadw unrhyw arferion crefyddol a allai fod gan eich teulu drwy gydol eich arhosiad. Os hoffech weddio neu fyfyrto, mae gennym gysegr enwadol a all roi lle tawel i chi. Gallwch hefyd ofyn i ni drefnu gwasanaethau byr gyda gweinidog neu arweinydd ffydd dewisol yn y cysegr.

Gallwn roi arweiniad a gwybodaeth i chi am fannau addoli lleol. Mae gennym hefyd adnoddau ar gyfer pobl o bob ffydd yn y cysegr.

Adran 3.2

Cymorth i Deuluoedd, a Brodyr a Chwiorydd

Bydd ein tîm cymorth i deuluoedd a'n gwasanaeth cymorth brodyr a chwiorydd yn gweithio'n agos gyda chi a thîm ehangach Tŷ Hafan i sicrhau bod eich teulu cyfan yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau bosibl.

Bydd ei rôl yn wahanol i bob teulu gan fod pob teulu yn unigryw. Mae hyn yn golygu y bydd ei gymorth yn cael ei deilwra gan gadw eich anghenion mewn cof. Yn ogystal â darparu cymorth personol, gall hefyd eich rhoi mewn cysylltiad â theuluoedd eraill a allai ddeall rhai o'r heriau rydych yn eu hwynebu. Bydd hefyd yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol i'ch galluogi chi fel teulu i greu atgofion arbennig. Gall y timau hyn ymweld â chi gartref, yn yr ysbyty, neu eich gweld pan fyddwch yn dod i aros yn yr hosbis.

Yn ogystal â'r ffaith bod y staff gwasanaethau gofal ar gael ar ddiwedd ffôn, mae'r ymarferwyr cymorth i deuluoedd yn darparu gwasanaeth ar alwad dros y penwythnos ac ar ôl 5:00pm bob nos. Os oes angen i chi siarad â rhywun pan fyddwch yn aros yn yr hosbis, gofynnwch i aelod o'r staff gwasanaethau gofal. Os ydych gartref, ffoniwch yr hosbis a bydd yr ymarferydd cymorth i deuluoedd ar alwad yn eich ffonio'n ôl.

Efallai y bydd angen cymorth arbennig ar frodyr a chwiorydd i ddeall anghenion eu brawd neu chwaer sydd â chyflwr sy'n byrhau bywyd. Gall ein tîm cymorth brodyr a chwiorydd weithio gyda brodyr a chwiorydd yn unigol, neu gallant ymuno ag un o'r grwpiau cymorth brodyr a chwiorydd sy'n cyfarfod yn rheolaidd i siarad a chael hwyl. Efallai y byddwch chi, fel rhiant, yn ei chael hi'n anodd trafod rhai o'r pethau anodd hyn â'ch plant, ond gall y tîm cymorth brodyr a chwiorydd eich helpu i ddod o hyd i'r ffordd orau o siarad â'ch plant.

Mae gennym hefyd weithwyr cymorth i deuluoedd sy'n gweithio'n benodol gyda mamau a thadau. Maent yn cynnig cefnogaeth drwy ddigwyddiadau, grwpiau a phan fo angen, sesiynau cymorth unigol. Gall y rhain fod yn ffordd dda o ddod i adnabod eraill mewn sefyllfaoedd tebyg a chael ychydig o hwyl ar yr un pryd.

Mae'r holl gymorth hwn yn parhau hyd at brofedigaeth.

Chwarae a hamdden

Rydym yn cydnabod, yn anad dim, mai plentyn yw eich plentyn a bod angen iddo wneud popeth y mae plentyn yn ei wneud. Mae ein tîm o staff chwarae profiadol yn gallu asesu anghenion chwarae a hamdden eich plentyn, a datblygu cynllun sy'n ysgogi ac yn herio'ch plentyn ond sydd, yn anad dim, yn hwyl. Gall staff chwarae hefyd

weithio gyda staff ysbyty i ddarparu'r cynllun gofal hwn pan fydd eich plentyn yn yr ysbyty.

Gellir asesu eich plentyn ar gyfer chwarae allgymorth gartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gyda chi a'ch plentyn i greu pecyn chwarae unigol a fydd yn helpu eich plentyn i gyrraedd ei lawn botensial mewn chwarae a gwella ei berthynas â'r byd o'i gwmpas.

Mae llyfrgell deganau a hamdden ar gael yn yr hosbis ac mae ganddi lawer o deganau a syniadau arbenigol sy'n cefnogi gwaith y gwasanaeth chwarae allgymorth. Gall teuluoedd hefyd gael mynediad i'r llyfrgell deganau a hamdden pan fyddant yn yr hosbis neu gartref neu'r ysbyty.

Gall ein Harbenigwr Chwarae Ysbyty, sydd â phrofiad o gefnogi plant ag ystod o alluoedd, ddarparu ymyriadau chwarae arbenigol ychwanegol er mwyn helpu eich plentyn i deimlo'n llai pryderus am ymyriadau neu driniaethau meddygol. Gall y cymorth hwn fod yn yr hosbis, gartref neu yn yr ysbyty.

Cymorth therapi arbenigol

Gallwn ddarparu nifer o therapiau arbenigol i'ch plentyn sy'n gallu bodloni eu hanghenion penodol.

Therapi cerdd

Rydym yn darparu therapi cerdd yn yr hosbis ac yn eich cartref eich hun. Byddwn yn asesu eich plentyn i weld a fydd therapi cerdd yn diwallu ei anghenion. Gall cerddoriaeth fod yn ffordd y gall eich plentyn gyfathrebu â'r byd neu efallai y bydd yn mwynhau cerddoriaeth fel hwyl.

Therapi chwarae

Efallai y bydd rhai plant yn ei chael hi'n haws mynegi eu hofnau a'u pryderon drwy chwarae. Gall ein therapydd chwarae cymwys gynnig cwrs o therapi os asesir bod hyn yn briodol ac yn ddefnyddiol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael i frodyr a chwiorydd.

Ffisiotherapi

Efallai y bydd angen i'ch plentyn gael ffisiotherapi rheolaidd fel rhan o'i gynllun gofal yn y gymuned. Gallwn barhau â'r cynllun hwn pan fydd eich plentyn yn byw yn yr hosbis, gan gynnwys ymestyn yn rheolaidd a ffisiotherapi ar y frest. Mae'r

ffisiotherapydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm gofal ehangach i sicrhau bod gan staff y sgiliau i wneud ffisiotherapi arferol pan nad yw'r ffisiotherapydd ar gael.

Therapi galwedigaethol

Mae gennym therapydd galwedigaethol cymwys fel rhan o'n tîm. Gall weithio gyda chi a'r tîm gofal i sicrhau bod gan eich plentyn yr offer a'r cymorth cywir i wneud y mwyaf o'i weithgaredd. Gall y therapydd galwedigaethol hefyd ddarparu cymorth yn y gymuned a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod gennych chi a'ch plentyn yr offer a'r cymorth sydd eu hangen arnoch gartref.

Hydrotherapi

Mae gennym bwl hydrotherapi pwrpasol i'w ddefnyddio gan blant a theuluoedd. Gall aelodau o'n tîm gefnogi eich plentyn i gael sesiwn hydrotherapi i'w helpu i ymestyn, lleddfu poen ac anghysur neu i gael rhywfaint o hwyl. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno defnyddio'r pwl hydrotherapi fel teulu i fwynhau rhywfaint o amser gyda'ch gilydd gan sicrhau eich bod yn gwybod bod cymorth gerllaw os bydd ei angen arnoch. Gallwn gynnig sesiynau pwl hydrotherapi wedi'u trefnu i blant a theuluoedd y tu allan i arhosiad wedi'i drefnu. Bydd teuluoedd yn gallu defnyddio'r pwl, ond bydd angen iddynt sicrhau bod cymorth yn cael ei drefnu drwy eu tîm cymunedol a/neu aelodau o'r teulu.

Therapiau cyflenwol

Efallai y bydd angen amrywiaeth o driniaethau ar eich plentyn i'w gadw'n gyfforddus ac yn rhydd rhag poen. Gall tylino a defnyddio triniaethau naturiol weithio gyda meddyginiaeth i gadw eich plentyn yn gyfforddus. Efallai y bydd angen tylino eich plentyn i wella cylchrediad y gwaed neu i leddfu poenau. Rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn yn yr hosbis ac yn eich cartref neu ysbyty.

Fel rhieni, gallwch chithau hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn yr hosbis, gartref neu yn yr ysbyty.

Symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

Er bod gan eich plentyn gyflwr a fydd yn byrhau ei fywyd, rydym yn cydnabod y gall eich plentyn gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Yn Tŷ Hafan, mae cynllunio i'ch plentyn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn dechrau pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 14 oed. Gelwir hyn yn gymorth pontio, ac mae'n cynnwys gweithgareddau cymdeithasol ac ymgysylltu â grwpiau cymorth cymheiriaid. Bydd

ymarferydd cymorth i deuluoedd a nyrs cymorth pontio penodedig yn gweithio'n agos gyda'ch plentyn, eich teulu, a'r holl asiantaethau eraill drwy gydol y broses bontio hon.

Ni allwn ddarparu cymorth preswyl i'ch plentyn ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed. Fodd bynnag, mae ein gweithwyr cymorth wedi rhoi cymorth arall ar waith gan gynnwys ein grŵp cymorth cymheiriaid 'y sgwad' a grwpiau cymorth rhieni, fel y grwpiau mam a thad. Maent yn parhau i fod ar gael ymhell ar ôl i bobl ifanc gael eu rhyddhau o'r gwasanaeth gofal. Yn ogystal, gallwch barhau i gael eich cefnogi gan y tîm hyd nes y byddwch wedi ymgartrefu yn y gwasanaethau oedolion.

Gofal diwedd oes

Pan ddaw'r amser, mae angen i chi wybod beth allwn ni ei gynnig i chi a'ch plentyn ar ddiwedd ei oes. Mae llawer o benderfyniadau y bydd yn rhaid i chi a'ch plentyn eu gwneud ond bydd ein staff arbenigol yno i gefnogi'ch teulu cyfan yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Efallai y byddwch am dreulio dyddiau, wythnosau neu fisoedd olaf eich plentyn gartref, yn yr ysbyty neu yn yr hosbis. Ble bynnag y byddwch yn penderfynu, byddwn yn gweithio gyda'ch plentyn, eich teulu a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal eich plentyn i geisio sicrhau bod y gofal rydych ei eisiau a'i angen ar gael yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir.

Os bydd eich plentyn yn gwneud rhai gwelliannau bach, efallai yr hoffech ailystyried eich cynlluniau, a meddwl am ddychwelyd adref. Byddwn yn gweithio gyda chi a'r holl weithwyr proffesiynol i sicrhau bod cynllun gofal yn cael ei lunio i adlewyrchu'r newid hwn mewn cyflwr a'r tebygolrwydd y bydd angen mwy o gymorth arno yn y cartref.

Sut y gallech ein cefnogi gartref yn ystod y cyfnod hwn?

Os hoffech aros gartref, neu yn yr ysbyty am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd olaf eich plentyn, bydd ymarferydd cymorth teulu yn rhoi'r wybodaeth a'r cymorth emosiynol y gallai fod eu hangen arnoch chi a'ch teulu. Bydd yn gweithio gyda'n tîm ehangach, gan gynnwys ein harbenigwyr nyrsio clinigol, a'n tîm chwarae a therapïau i roi cymorth wedi'i deilwra i chi.

Bydd ein gwasanaeth therapi cyflenwol yn gallu cynnig tylino lleddfol ac ymlaciol i'ch plentyn, i leddfu anghysur a phoen. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael i chi er mwyn helpu i leddfu rhywfaint o ofn a gorbryder am ofalu am eich plentyn ar ddiwedd e oes.

Pan fydd eich plentyn yn marw byddwn yno i chi. Gallwn gynnig cymorth gan gynnwys cymorth i gofrestru'r farwolaeth a gwneud trefniadau gyda'r trefnwyr angladdau.

Gallwn hefyd eich cynorthwyo gyda threfniadau'r angladd, ac mewn rhai achosion cysylltu ag eraill a allai fod yn gysylltiedig ar ôl marwolaeth, gan gynnwys y crwner neu'r heddlu.

Sut y gallech ein cefnogi yn yr hosbis?

Os byddwch yn dewis dod i'r hosbis am ddyddiau neu wythnosau olaf bywyd eich plentyn yna byddwch yn gallu defnyddio'r un cyfleusterau ag y byddech ar gyfer unrhyw arhosiad arall. Rydym yn sylweddoli efallai y bydd angen i'ch teulu fod yn agos at eich plentyn ac efallai nad ydych am gymdeithasu â theuluoedd eraill – byddwn yn trefnu ystafell wely i chi yn agos at ystafell eich plentyn fel y gallwch aros yn agos, ond hefyd gael rhywfaint o amser ar eich pen eich hun. Bydd ein tîm yn eich cefnogi mewn ffordd sy'n briodol i chi.

Bydd nyrsys a meddygon ein hosbis yn sicrhau bod eich plentyn yn gyfforddus.

Efallai yr hoffech gysylltu â'ch grŵp ffydd, yn enwedig gweinidog, Imam neu arweinydd crefyddol arall. Mae croeso iddynt ymweld unrhyw bryd. Efallai y bydd rhai sefyllfaoedd pan fydd angen i ni roi rhai camau ychwanegol ar waith – ond ni fyddwn yn gosod rhwystrau yn eich atal rhag cael mynediad at y gofal a'r cymorth ysbrydol sydd eu hangen arnoch. Os nad oes gennych rywun rydych yn ei adnabod, yna gallwn gysylltu ag arweinydd crefyddol lleol ar eich rhan. Mae ein staff yn deall rhai o arferion crefyddol pwysig llawer o grefyddau'r byd, ond byddwn yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni eich union ddymuniadau ar yr adeg hon.

Ar yr adeg hon, byddwn yn sicrhau bod ymweld a ffarwelio mor hawdd â phosibl i'ch teulu a'ch ffrindiau.

Efallai y bydd angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol ar frodyr a chwiorydd i ddeall beth sy'n digwydd. Bydd ein timau'n esbonio'n dringar ac yn gweithio gyda nhw i'ch helpu chi i gyd i wneud dewisiadau am fod yn bresennol yn ystod oriau neu ddyddiau olaf bywyd eu brawd neu chwaer.

Pan fydd eich plentyn yn marw, byddwn yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch, gan gynnwys esbonio'r prosesau ar gyfer cofrestru'r farwolaeth a'ch helpu i wneud trefniadau gyda'r trefnwyr angladdau yr hoffech eu defnyddio. Gellir gofalu am eich plentyn yn yr hosbis yn dilyn marwolaeth ac mae croeso i chi aros am ychydig oriau neu ddyddiau, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen arnoch.

Cymorth mewn profedigaeth

Bydd ein timau arbenigol yno i chi yn ystod y cyfnod anodd ac anghyfarwydd hwn. Byddwn yn cefnogi yn ystod dyddiau cynnar iawn eich galar, drwy'r angladd, ac yna wrth i chi ddechrau byw bywyd heb eich plentyn.

Rydym yn darparu'r cymorth hwn i chi a'ch teulu am gyhyd ag y byddwch ei angen. Gallwn ymweld â chi gartref, neu efallai yr hoffech ymuno ag un o'n grwpiau cymorth profedigaeth. Gallwn hefyd drefnu cymorth cwnsela proffesiynol os oes angen.

Efallai y bydd angen cymorth arbennig ar frodyr a chwiorydd. Efallai y byddant yn dechrau cael problemau yn yr ysgol neu'n dangos newidiadau mewn ymddygiad. Os hoffech i ni wneud hynny, gallwn weithio gydag ysgolion i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg hon. Weithiau, mae angen cymorth mwy arbenigol ar blant i'w helpu i ddeall eu teimladau, ac os oes angen gallwn gynnig cwrs o Therapi Chwarae.

Fel rhan o'n cymorth mewn profedigaeth, rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd i chi a'ch teulu gofio eich plentyn drwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gwasanaeth coffa yn yr haf ac adeg y Nadolig.

Mae llyfr o atgofion ar gael i chi yn cynnwys lluniau ac atgofion o'ch plentyn os dymunwch. Bydd enw eich plentyn yn cael ei ysgythru ar garreg gron a'i gosod yn yr ardd goffa, neu gallwch fynd â'r garreg hon adref gyda chi os yw'n well gennych.

Mae'r plant rydym wedi'u cefnogi yn ysbrydoliaeth i ni a phopeth a wnawn. Mae gennym gofeb bwrpasol yn ein gerddi o'r enw 'Forever in our skies'. Os hoffech wybod mwy am y deyrnged barhaol hon i'r plant eithriadol rydym yn cwrdd â nhw, gofynnwch i aelod o'n tîm.

Adran 3.3

Gweithio gyda'n Gilydd

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r gwasanaethau y gall Tŷ Hafan eu darparu ar gyfer eich plentyn a'ch teulu. Gallwn ond ddarparu'r gofal gorau os byddwn yn gweithio gyda chi i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan gynnwys rhoi gwybod i chi beth y gallwch ei ddisgwyl gennym, sut y gallwn ddatrys problemau os byddant yn codi a dysgu gyda'n gilydd os oes angen newid neu wella pethau.

Byddwn bob amser yn eich trin â chwarteisi a pharch, a gwyddom y byddwch bob amser yn ceisio gwneud hyn hefyd. Er ein bod yn deall y gall ymdopi â'ch cyfrifoldebau gofalu achosi straen a blinder weithiau, mae'n bwysig bod ein staff yn teimlo'n ddiogel bob amser. Os bydd aelod o'n tîm yn teimlo bod ymddygiad yn afresymol, bydd yn ceisio esbonio hyn i chi. Pan fo angen, efallai y bydd yn galw am help neu'n gofyn i chi adael. Gall ymddygiad afresymol gynnwys rhegi, cam-drin corfforol neu eiriol ac ymddygiad meddw.

Cymerwch amser i ddarllen drwy'r Cytundeb Teulu y byddwch wedi'i gael ynghyd â'r canllaw hwn.

Gwneud awgrymiadau, codi pryderon a chwynion

Mae Tŷ Hafan yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sy'n cynnal arolygiadau rheolaidd i fonitro safon y gofal a ddarperir i'ch plentyn a'ch teulu. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Tŷ Hafan ym mis Hydref 2021. Gallwch gael yr adroddiadau arolygu diweddaraf ar ein gwefan www.tyhafan.org neu ar gais gan AGIC.

Gall rhieni, gofalmwyr, plant a phobl ifanc gysylltu ag AGIC ar unrhyw adeg os ydych yn teimlo nad ydym yn cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth gofal iechyd. Mae ei manylion ar gael drwy ei gwefan fel a ganlyn:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

E-bost: agc@llyw.cymru

Ffôn: 0300 062 8163

Nod Tŷ Hafan yw sicrhau bod y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu o'r safon uchaf posibl. Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym am ddeall eich profiadau, yn enwedig am

bethau y teimlwch y gallem eu gwneud yn well neu'n wahanol. Rhowch wybod i ni eich awgrymiadau ynglŷn â'ch profiad o'n gwasanaeth.

Rydym bob amser eisiau eich sylwadau ar y gwasanaeth rydych yn ei gael, ac efallai y byddwn yn gofyn i chi, o bryd i'w gilydd, i gwblhau arolygon neu holiaduron i fonitro pa mor dda rydym yn gwneud. Byddwn yn rhoi canlyniadau'r adborth a gawn i chi.

Os ydych yn teimlo'n bryderus nad yw Tŷ Hafan wedi cyflawni'ch disgwyliadau a'ch bod yn dymuno codi pryder neu wneud cwyn am unrhyw un o wasanaethau Tŷ Hafan, neu os oes gennych faterion sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb, amrywiaeth neu hawliau dynol, mae polisi a gweithdrefn cwynion gofal yn ar waith i'ch arwain drwy'r broses. Lle bynnag y bo modd, rydym yn annog teuluoedd i siarad â ni am unrhyw bryderon sydd ganddynt fel y gallwn wneud gwahaniaeth cyn gynted â phosibl.

Mae'r drefn ar gyfer gwneud awgrymiadau, codi pryderon a chwynion wedi'i nodi ym mholisi cwynion gofal Tŷ Hafan sydd ar gael ar ein gwefan <https://www.tyhafan.org/cy/siarad-a-ni/>. Gallwch hefyd ofyn i unrhyw aelod o staff am gopi o'r polisi cwynion.

Os hoffech wneud cwynion yn ddiennw, bydd Tŷ Hafan yn cynnal yr un broses o ymchwilio, ond mae'n golygu na fydd yr unigolyn dan sylw, na'r sefydliad yn gallu datrys y materion 'wyneb yn wyneb'.

Rydym am i'n gofal fod y gorau y gall fod, ond os oes gennych gwestiwn, pryder neu gŵyn am y gofal a gewch, yna rydym am drafod hyn â chi cyn gynted â phosibl. Gallwch ein ffonio, ysgrifennu atom, neu fynd i'r wefan i roi gwybod i ni am eich pryderon a byddwn yn ymchwilio iddynt. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad hyn ac yn trafod y ffordd ymlaen â chi.

Gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

Tŷ Hafan

Heol Hayes

Sili

Bro Morgannwg

CF64 5XX

Gwefan: <https://www.tyhafan.org>

Ffôn: 029 2053 2200

Diolch am ddarllen Canllaw i Rien i Theuluoedd Tŷ Hafan. Os hoffech chi neu rywun agos atoch gael y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith wahanol, rhowch wybod i ni. Rydym yn deall na all llyfryn fel hwn ateb eich holl gwestiynau, ac efallai fod rhywbeth rydych yn pryderu amdano nad yw wedi'i gynnwys. Yn yr un modd, os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella neu sylwadau sy'n ymwneud â'r canllaw

hwn i rieni a theuluoedd, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Mae croeso i chi gysylltu â ni. Rydym am i chi deimlo'n ddiogel gydag unrhyw un o'r gwasanaethau gofal rydym yn eu cynnig i chi. Nid oes unrhyw gwestiwn yn ormod i ni ei ateb – waeth pa mor fawr neu fach ydyw.